Un Llais Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru yn lansio canllaw gweithredu newid hinsawdd cymunedol newydd i Gynghorau lleol

Mae Un Llais Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru wedi lansio canllaw gweithredu newid hinsawdd a natur newydd sbon ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru yng Nghynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru yn ddiweddar.

Bu Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, Rebecca Evans AS, yn traddodi araith gyweirnod yn yr un gynhadledd sy'n edrych ar sut y gall cynghorau cymuned a thref 'Wynebu Heriau Dyfodol Dyrys'.

Mae'r ddogfen newydd, sef cydweithrediad rhwng Un Llais Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru, yn ceisio rhoi rhai syniadau ymarferol i gynghorau ledled Cymru ar yr hyn y gallant ei wneud ar amrywiaeth o faterion megis defnydd ynni, defnydd dŵr, gwarchod natur, cyllid, cemegau, gwastraff, bwyd a thrafnidiaeth. Mae hefyd yn dwyn ynghyd astudiaethau achos o'r gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud gan gynghorau cymuned a thref ledled Cymru ar y materion hyn.

Dywedodd y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans:
"Mae'r Canllaw Newid Hinsawdd hwn yn adnodd newydd pwysig i gynghorau cymuned a thref Cymru.
"Mae gennym ni i gyd ein rhan i'w chwarae wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd, ac mae cynghorau tref a chymuned mewn sefyllfa unigryw o dda i fod yn arweinwyr yn eu cymunedau ar y mater hynod bwysig hwn."

Dywedodd Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr Un Llais Cymru:
"Rwy'n croesawu'n fawr gyhoeddiad y Canllaw newydd hwn i Gynghorau Lleol a byddwn yn annog pob Cyngor i ddilyn y canllawiau a grybwyllir yn y ddogfen ar gyfer eu dyletswyddau a'u gweithgareddau Cyngor o ddydd i ddydd. " .

Dywedodd Bleddyn Lake, Ilefarydd Cyfeillion y Ddaear Cymru:
"Mae gan Gynghorau Cymuned a Thref rôl unigryw i'w chwarae wrth ysbrydoli a gweithio gyda'u cymunedau i gymryd camau ymarferol yn eu hardaloedd lleol ar y bygythiadau deuol o ddinistrio natur a newid hinsawdd.

"Gweithredu'n lleol, boed hynny ar lefel bersonol neu gymunedol, yw un o'r pethau pwysicaf y gallwn ei wneud yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Gobeithiwn y bydd y canllaw gweithredu newydd hwn yn rhoi syniadau newydd i Gynghorau Cymuned a Thref yn ogystal â dysgu o rai o'r cynlluniau gwych sydd eisoes yn digwydd ledled Cymru."

Mae'r ddogfen atodedig yn gydweithrediad rhwng Un Llais Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru

Nodiadau
Un Llais Cymru yw'r prif sefydliad ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru, gan ddarparu llais cryf sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau ac ystod o wasanaethau o ansawdd uchel i gefnogi eu gwaith Sefydlwyd Cyfeillion y Ddaear Cymru ym 1984, mae'n rhan o Gyfeillion y Ddaear Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac mae'n cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau ymgyrchu lleol sy'n

gweithio mewn cymunedau ledled Cymru. Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ysbrydoli'r gweithredu lleol a chenedlaethol sydd ei angen i warchod yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn credu bod lles pobl a'r blaned yn mynd law yn llaw.